Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Gele
# Ffordd Y Morfa
# Abergele
# Conwy
# LL22 7NU

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Fabanod Glan Gele wedi'i lleoli yn nhref arfordirol Abergele yn awdurdod lleol Conwy. Mae'n gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf, sef ardal y dynodwyd bod ganddi un o'r lefelau difreintedd uchaf yng Nghymru. Mae 307 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys y feithrinfa. Mae ganddi 11 dosbarth.

Mae tua 34% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg mamiaith gartref ac mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Fe wnaeth y pennaeth ymgymryd â'i swydd yn 2007. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym mis Hydref 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Fabanod Glan Gele yn 2014-2015 yw £3,579 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £15,278 a'r lleiafswm yw £3,190. Mae Ysgol Fabanod Glan Gele yn y 50fed safle o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, o bwyntiau cychwyn isel yn aml
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn meddu ar y medrau i fynd i'r afael â geiriau anodd, anghyfarwydd yn hyderus
- Ar draws yr ysgol, mae ansawdd cyffredinol ysgrifennu disgyblion yn rhagorol, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn cynhyrchu ysgrifennu o safon uchel gan ddefnyddio ystod helaeth o eirfa i ennyn diddordeb y darllenwr yn llwyddiannus
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau pwrpasol ar draws y meysydd dysgu
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl disgyblion yn rhagorol ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol a myfyriol
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae eu hymddygiad yn rhagorol
- Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion yn gyson
- Mae'r ysgol yn darparu lefelau gwych o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion a rhieni
- Mae'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn fywiog a deniadol
- Gwna staff ddefnydd dychmygus o'r holl ofod sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer dysgu ac mae hyn yn hynod fuddiol o ran codi safonau rhifedd disgyblion a datblygu eu medrau datrys problemau

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn ysbrydoli staff i gyflawni rhagoriaeth yn eu gwaith
- Mae'r pennaeth yn sefydlu diwylliant o ddidwylledd, ymddiriedaeth ac atebolrwydd ymhlith staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni
- Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan cefnogol gyda lefelau gwych o waith tîm
- Mae'r corff llywodraethol yn hynod effeithiol ac mae'n darparu lefelau uchel o gymorth a her i'r ysgol
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach o safon uchel iawn
- Mae cynnwys y staff yn llawn ar bob lefel wrth wella'r ysgol yn hynod effeithiol o ran datblygu blaenoriaethau a gwella safonau
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cadarn o ddata i sicrhau bod disgyblion ar y

trywydd cywir ac yn cael y cymorth mwyaf priodol os byddant ar ei hôl hi

- Mae staff yn rhannu arfer orau ac yn cymryd rhan yn bwrpasol mewn rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill
- Mae gan yr ysgol ystod ragorol o bartneriaethau sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol, ac mae partneriaethau â rhieni yn gadarn iawn
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol iawn i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion targedig

## Argymhellion

A1 Gwella cyflwyniad gwaith disgyblion

A2 Gwella presenoldeb

A3 Datblygu marcio fel ei fod yn nodi'n glir sut y gallai disgyblion wella'u gwaith ac annog disgyblion i ddefnyddio'u targedau personol wrth asesu eu cynnydd eu hunain

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llawer o ddisgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Gydag amser, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ac mae tua hanner yn ennill y lefel uwch na'r disgwyl. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn o ran eu darllen a'u hysgrifennu. Mae hyn yn eu galluogi nhw i fanteisio ar bob maes dysgu yn haws. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn aml yn cyrraedd safonau ymhell uwchlaw'r rhai a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yn siarad am eu gwaith yn frwdfrydig, ac yn gofyn ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio geirfa helaeth a diddorol. Mae disgyblion mwy abl yn gallu addasu eu hiaith lafar yn llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion, er enghraifft wrth recordio sgript drama yn gysylltiedig â'u hardal chwarae rôl 'o dan y môr'. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac mae ganddynt y medrau i fynd i'r afael â geiriau anodd, anghyfarwydd yn hyderus. Darllenant gyda mynegiant da, gan ddeall beth maent wedi'i ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae ansawdd cyffredinol ysgrifennu disgyblion yn rhagorol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau diddorol ac estynedig at amrywiaeth o ddibenion mewn gwersi Saesneg ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Cynhyrchant waith ysgrifenedig o safon uchel gan ddefnyddio ystod helaeth o eirfa i ennyn diddordeb y darllenwr yn llwyddiannus. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ailddrafftio'n dda i fireinio a gwella'u gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am 'Y Frwsh Hud'. Fodd bynnag, mae safonau cyflwyno a llawysgrifen ar draws yr ysgol yn amrywio'n ormodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio ystod ddigon eang o atalnodi'n gywir, yn sillafu geiriau syml yn gywir ac yn ymdrechu'n argyhoeddiadol wrth sillafu geiriau mwy anodd.

Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau pwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol briodol, yn gwneud defnydd cadarn o offer ymarferol i'w helpu i gyfrifo ac yn cofnodi eu canlyniadau'n dda. Ym mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adio a thynnu gan ddefnyddio degau ac unedau, yn haneru a dyblu rhifau ac yn mynd ati i ddatrys problemau yn hyderus. Er enghraifft, defnyddiant farciau rhifo a siartiau bar yn effeithiol i gofnodi canlyniadau arolygon a gallant ddethol a dehongli data o'r rhain yn gywir.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda, er enghraifft ar ddechrau pob maes dysgu pan fyddant yn gofyn cwestiynau diddorol i ymchwilio iddynt a'u hateb. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgarwch entrepreneuraidd, pan fyddant yn cael eu herio i wneud elw. Mae hyn yn cefnogi datblygiad eu medrau datrys problemau a meddwl mewn ffordd fuddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth ddysgu Cymraeg. Maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml yn frwdfrydig, gan ddefnyddio patrymau syml wrth iddynt siarad am y tywydd a'r pethau y maent yn eu hoffi a'u casáu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen testunau anghyfarwydd gyda mynegiant a dealltwriaeth briodol ac yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau gan ddilyn patrymau iaith wedi'u dysgu yn gywir.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, ar y deilliant 5 disgwyliedig, a'r deilliant 6 uwch na'r disgwyl, mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn gyson o'i chymharu ag ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill yn y deilliant disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Fodd bynnag, maent yn tuedd i berfformio'n waeth yn y deilliant uwch na'r disgwyl. Yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched. Fodd bynnag, yn y deilliant uwch na'r disgwyl, mae merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn mewn llythrennedd ac mae bechgyn yn tueddu i berfformio'n well na merched mewn datblygiad mathemategol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae eu hymddygiad o amgylch yr ysgol yn eithriadol ac maent yn gwrtais a moesgar i'w gilydd ac i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall yr angen am reolau ac yn siarad yn hyderus am werthoedd, fel hapusrwydd, gonestrwydd a pharch. Maent yn cydweithredu'n dda ag athrawon, cynorthwywyr addysgu a'i gilydd mewn gweithgareddau dysgu ac wrth chwarae. Mewn gwersi, mae bron pob un ohonynt yn dangos lefelau uchel o ymroi i'w dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at oedolyn neu ddisgybl hŷn os oes angen help neu gymorth arnynt.

Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion am beth mae angen iddynt ei fwyta i fod yn iach yn dda ac maent yn mwynhau cyfleoedd i fod yn weithgar yn gorfforol yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ymarferion cerddoriaeth a symud amser cinio. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles ac yn eu helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol da.

Gwna disgyblion gyfraniad priodol at yr hyn y byddant yn ei ddysgu a sut. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at wella'r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, caiff y toiledau eu haddurno'n rheolaidd gan ddefnyddio themâu wedi'u dewis gan y disgyblion. Mae'r pwyllgor eco yn gwneud gwelliannau rheolaidd i dir yr ysgol, sy'n gwella'r amgylchedd dysgu i bawb.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd ac ar amser. O gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg, mae presenoldeb wedi parhau yn gyffredinol yn yr 50% uwch am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn fwyaf diweddar, disgynnodd yr ysgol i'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ddau gyfnod pan effeithiodd salwch ar leiafrif sylweddol o ddisgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eithriadol o brofiadau dysgu dan do ac awyr agored o ansawdd uchel. Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio ynghyd yn effeithiol i sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn ystyried anghenion a diddordebau pob disgybl. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn cael eu symbylu'n fawr gan y gweithgareddau ysgogol a ddarperir a gwnânt gynnydd cadarn iawn. Mae nifer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws pob maes dysgu, er enghraifft amcangyfrif a chyfrif nifer yr wyau sydd wedi'u dodwy gan ieir yr ysgol bob dydd. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r defnydd creadigol ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gwella'r cyfleoedd i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg. Mae disgyblion yn gwrando ar gwestiynau ac ymadroddion Cymraeg wedi'u recordio, ac yn ymateb iddynt. Mae hyn yn fuddiol o ran datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl disgyblion yn rhagorol ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol a myfyriol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol arloesol i ddisgyblion a rhieni. Mae'r rhain yn cyfoethogi ac yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion ymhellach ac yn hybu cysylltiad a diddordeb rhieni yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys siarter Glan Gele 50, sef rhestr o 50 o brofiadau cyffrous i'w cyflawni cyn gadael yr ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys neidio dros donnau ar y traeth a gwylio cywion yn deor. Mae'r defnydd ar yr ysgol goedwig a'r traeth yn caniatáu i ddisgyblion a rhieni ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn ffyrdd rhyngweithiol a hwyliog.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion a hybu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn gadarn. Mae'r holl staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac mae disgyblion yn elwa o'r modelau rôl cadarnhaol a glywant a'r cyfoeth o waith celf sydd o fewn amgylchedd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac arbed ynni yn effeithiol. Mae ganddi bartneriaethau datblygedig ag ysgolion, sefydliadau ac unigolion eraill mewn nifer o wledydd, fel Uganda a Bwlgaria. Mae'r rhain yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u rolau fel dinasyddion byd-eang yn dda.

**Addysgu: Rhagorol**

Mewn bron pob gwers ar draws yr ysgol, mae athrawon yn ennyn diddordeb ac yn symbylu disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddiant ystod eang o ddulliau ac adnoddau

dysgu ac addysgu cyffrous, gan gynnwys TGCh a'r amgylchedd awyr agored, i wella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae disgwyliadau uchel iawn gan athrawon a darparant lefelau rhagorol o her i bob disgybl, gan ofyn ystod dda iawn o gwestiynau i atgyfnerthu dysgu disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth glir o'r hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei gyflawni ac maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod am yr amcanion dysgu ar ddechrau gwersi. Mae cynorthwywyr addysgu'n gweithio'n agos gyda'r athro a gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at ddysgu disgyblion. Mae gan yr holl staff berthynas waith dda gyda disgyblion, sy'n meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, ymatebant yn hyblyg i anghenion a diddordebau disgyblion er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu wrth iddynt godi. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gynnydd a chyflawniad pob unigolyn. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r defnydd effeithiol ar gwestiynau penagored yn annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau meddwl a datrys problemau yn dda, mynegi eu safbwyntiau'n hyderus a chydweithio.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau cefnogol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon clir sut y gallai disgyblion wella'u gwaith nac yn annog disgyblion i ddefnyddio'u targedau personol wrth asesu eu cynnydd eu hunain. Mae datblygiadau diweddar, fel defnyddio llyfrau targed 'clever clogs', yn dechrau helpu disgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn trafod eu dysgu a'u camau tuag at wella yn wybodus, ac mae'r defnydd ar asesu cymheiriaid gan ddisgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae athrawon yn defnyddio system olrhain helaeth yr ysgol yn fedrus i nodi llwyddiannau disgyblion ac i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol ac mae'n helpu bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd rhagorol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol.

Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a llwyddiannau eu plentyn mewn adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn manwl ac addysgiadol, a thrwy gyfarfodydd rheolaidd i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynnig lefelau gwych o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion a rhieni. Mae ffocws clir ar ddatblygu lles disgyblion ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr hapus, brwdfrydig a hyderus. Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu a gwreiddio diwylliant o 'weithredu' ymhlith ei disgyblion. Mae disgyblion yn gwybod beth i'w wneud os oes angen help arnynt. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, maent yn chwilio am ddisgyblion hŷn sy'n gweithredu fel 'ceidwaid chwarae' i ofalu amdanynt a chwarae gemau gyda nhw. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad cymdeithasol a moesol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy ddosbarthiadau coginio rheolaidd gyda disgyblion a rhieni, gan ddefnyddio cynnyrch o ardd lysiau'r ysgol. Mae athrawon yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am ieir yr ysgol. Mae nifer o gyfleoedd i ddisgyblion weithio

gydag artistiaid ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn ategu eu datblygiad diwylliannol a'u dealltwriaeth o dreftadaeth yr ardal yn llwyddiannus. Mae addoli dyddiol ar y cyd a darpariaeth gadarn ar gyfer addysg grefyddol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i blant fyfyrio ar faterion ysbrydol a datblygu eu hymdeimlad o syfrdan a rhyfeddod yn briodol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a gwaith yr ysgol gydag asiantaethau allanol ac arbenigwyr yn rhagorol. Mae hyn yn hynod fuddiol o ran cefnogi'r disgyblion mwyaf agored a'u teuluoedd. Mae cyfres o raglenni ymyrraeth arloesol a rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys y 'Pirates Group' a'r 'Rockets Reading Booster Club'. Rhoddant gyfleoedd pwrpasol iawn i ddisgyblion gynyddu eu teimladau o hunan-barch a gwella'u medrau darllen a sillafu, yn enwedig bechgyn. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion a gwybodaeth asesu fanwl yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni eu targedau heriol ac yn gwneud cynnydd da, a da iawn yn aml.

Mae systemau sefydledig ac effeithiol ar waith i hybu presenoldeb disgyblion ac i fonitro eu prydlondeb. Mae staff yn monitro data ynghylch presenoldeb yn dda, ac mae'r cynorthwyydd cyswllt teuluol yn ymgysylltu â theuluoedd yn bwrpasol i annog presenoldeb gwell. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn wedi effeithio'n llawn ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol eto. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'u hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a gofalgar iawn, sy'n fuddiol ar gyfer cefnogi anghenion dysgu amrywiol yr holl ddisgyblion. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n agos i ddathlu doniau a gwahaniaethau disgyblion ac i gynyddu eu disgwyliadau o ran yr hyn y gallant ei gyflawni yn yr ysgol ac mewn bywyd. Mae pob maes dysgu ar gael yn gyfartal i bob disgybl. Maent yn cydweithio'n dda ac mae ganddynt lefelau uchel o ofal a chymorth tuag at ei gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn gallu rhannu eu meddyliau a'u syniadau yn agored ac yn glir.

Mae'r holl staff yn hybu goddefgarwch a pharch ac maent yn herio unrhyw wahaniaethu yn effeithiol. Maent yn dathlu amrywiaeth yn dda trwy addoli ac mewn gwaith pwnc ar ddiwylliannau a ffydd eraill. Rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch ac, o ganlyniad, mae safle'r ysgol yn ddiogel. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i reoli'r broses o symud nifer fawr o ddisgyblion ifanc o gwmpas yr ysgol, gan greu amgylchedd dysgu digynnwrf a threfnus.

Mae'r cyfleusterau mewnol ac allanol yn hynod ddeniadol a lliwgar, ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Gwna athrawon ddefnydd dychmygus o'r lle sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddysgu. Mae arddangosfeydd o ansawdd uchel iawn ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion yn dda iawn. Gellir mynd at adnoddau yn hawdd ac maent wedi'u trefnu'n dda iawn, gan helpu i hybu annibyniaeth disgyblion yn dda. Gwna staff ddefnydd da iawn o'r ardaloedd awyr agored helaeth a'r ardal leol. Er enghraifft, mae ardal yr ysgol goedwig, ardal y gegin

fwd a thir cloddio yn cynnig profiadau dysgu rhagorol. Mae'r rhain yn hynod fuddiol ar gyfer codi safonau disgyblion, yn enwedig eu medrau rhifedd a datrys problemau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ragorol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth helaeth iawn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae ei harweinyddiaeth ysbrydoledig a phwrpasol iawn wedi sefydlu diwylliant o ddidwylledd, ymddiriedaeth ac atebolrwydd ymhlith staff, disgyblion, llywodraethwyr a rheini. O ganlyniad, mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn rhannu ymrwymiad i wella, sy'n greiddiol i fywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn herio tanberfformio yn drylwyr ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl staff a disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn ac mae ganddynt agweddau rhagorol at ddysgu.

Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau allweddol yn dda ymhlith y staff ar bob lefel. Mae'r holl staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan cefnogol gyda lefelau rhagorol o waith tîm. Maent yn herio ei gilydd yn briodol trwy fonitro cynllunio, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae mentora a datblygu staff yn gryfder sylweddol. Mae disgrifiadau swydd perthnasol, wedi'u diffinio'n glir, gan yr holl staff ac mae arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd trwy drefniadau rheoli perfformiad effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio targedau a osodir i symud blaenoriaethau datblygu'r ysgol yn eu blaen yn dda iawn. Er enghraifft, mae newidiadau i'r ffordd y mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i weithio ar safon uchel iawn.

Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cynnwys pob aelod staff. Mae arweinwyr yn monitro effaith penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hyn yn drylwyr. Mae staff yn rhannu arfer dda yn dda ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol iawn, gydag ymrwymiad cadarn i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa'n llawn ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gostwng effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn llwyddiannus iawn, er enghraifft trwy fentrau iechyd a lles hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithredu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn ac mae'n datblygu medrau meddwl disgyblion mewn ffordd ragorol. Mae hyn yn arwain at lefelau uchel o ddysgu annibynnol gan ddisgyblion. Mae arweinwyr yn rhannu'r arfer dda hon gydag ysgolion eraill yn rheolaidd.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod effeithiol ac mae'n darparu lefelau uchel o gefnogaeth a her i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o ddata perfformiad yr ysgol a'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Cynhaliant nifer nodedig o ymweliadau â dosbarthiadau i fonitro gwersi ac i ystyried gwaith disgyblion.

## Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach o safon uchel iawn. Mae gweithdrefnau hunanafarnu cadarn yn cynnwys monitro llyfrau disgyblion, defnyddio 'teithiau dysgu', arsylwi gwersi a dadansoddi ystod o ddata yn drylwyr. Nodwedd ragorol yw'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio'r broses hunanadolygu i greu'r amodau gorau posibl i bob disgybl unigol ddatblygu a ffynnu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Mae cyfraniad llawn pob aelod staff at wella'r ysgol yn hynod effeithiol o ran datblygu blaenoriaethau a chodi safonau. Er enghraifft, mae cyflwyno ymagwedd systematig at ddarllen ac ysgrifennu, gyda phwyslais cryf ar addysgu ffoneg, wedi cael effaith amlwg ar godi safonau disgyblion ar lefel y deilliant uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd.

Mae'r ysgol yn ceisio barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn rheolaidd. Gwna arweinwyr ddefnydd helaeth o'r wybodaeth hon i wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae awgrymiadau disgyblion wedi arwain at ailosod parthau yn yr ardal chwarae fel y gall amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr ddigwydd yno. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac mae eu medrau cymdeithasol wedi'u datblygu'n dda.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn glir a manwl. Mae'n cysylltu'n dda â chanlyniadau hunanarfarnu a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae targedau o fewn y cynllun yn fesuradwy a chanolbwyntiant yn dda ar godi safonau disgyblion a gwella'r ddarpariaeth. Mae athrawon a staff cymorth yn llunio cynlluniau gweithredu manwl ac addysgiadol, sy'n helpu i fonitro cynnydd yn drylwyr ac amlygu anghenion penodol o ran hyfforddiant ac adnoddau yn dda. Mae gan yr ysgol hanes da o roi newid ar waith yn ofalus ac yn effeithiol o safbwynt cynyddu deilliannau disgyblion a safonau lles.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gadarn. Mae staff yn rhannu arfer orau ac yn arddangos ymrwymiad cadarn at wella'u harfer eu hunain trwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r ysgol yn ganolbwynt rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yn lleol a thu hwnt, er enghraifft trwy rannu ei gwaith ar bartneriaethau â rhieni a defnyddio'r awyr agored i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

## Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ystod ragorol o bartneriaethau sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Mae partneriaethau rhagorol â rhieni. Mae'r ysgol yn eu hannog yn weithgar i gymryd rhan yn addysg eu plant trwy droi at gyrsiau arloesol, fel 'Dads and Lads', sy'n canolbwyntio ar wella medrau darllen a datrys problemau bechgyn. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys sesiynau galw heibio rheolaidd, gweithdai rhifedd i rieni a thaflenni defnyddiol er mwyn helpu rhoi syniadau i rieni ar sut i gynorthwyo â dysgu eu plant gartref. Mae'r profiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac maent yn cynyddu cysylltiad rhieni yn llwyddiannus.

Mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus iawn yn troi at yr ysgol. Mae staff yn mynd ati i gael adborth gan rieni er mwyn ysgogi gwelliannau ar gyfer y disgyblion. Mae grwpiau rhieni, fel y fforwm rhieni, yn gyfrwng da ar gyfer derbyn barn teuluoedd. Mae'r ysgol

yn rhoi gwybodaeth dda iawn i rieni am fywyd yr ysgol trwy gylchlythyron rheolaidd a gwefan yr ysgol. Mae'r 'sesiynau rhannu a dysgu' wythnosol, dychmygus, yn caniatáu i rieni ymuno ag amrywiaeth o brofiadau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai creadigol a heriau medrau datrys problemau a meddwl. Mae lefel uchel iawn o rieni'n cymryd rhan yn y sesiynau hyn.

Mae'r ysgol yn datblygu arferion cydweithio rhagorol gyda nifer fawr o ysgolion eraill yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'n rhannu ei harfer dda yn barod, yn enwedig ei harbenigedd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd, a dysgu yn yr awyr agored.

Mae cynllunio'r ysgol i ddisgyblion symud yn hwylus o un cyfnod i'r llall yn drylwyr tu hwnt. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ymweliadau cartref ar gyfer plant cyn oedran meithrin, sy'n eu helpu i ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae trefniadau pontio effeithiol i ddisgyblion sy'n symud i'r ysgol iau sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn hyderus i gam nesaf eu haddysg. Mae'r ysgol yn cysylltu ag ystod o bartneriaid iechyd ac addysg proffesiynol yn effeithiol i wella arferion gweithio ac i gefnogi teuluoedd agored i niwed.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a chynnal a chadw gardd gymunedol Peel Street yn y dref.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae gan yr holl staff gymwysterau addas ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ychwanegol i wella'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr addysgu yn effeithiol i sicrhau'r defnydd gorau ar eu harbenigedd a'u profiad. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth rhagorol i grwpiau ymyrraeth a datblygu dysgu yn yr awyr agored. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon a chaiff uwch reolwyr amser priodol di-gyswllt ychwanegol er mwyn cyflawni dyletswyddau arwain.

Mae athrawon a staff cymorth yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi gwerth chweil. Mae prosesau rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff yn nodi anghenion hyfforddi yn effeithiol ac yn cysylltu'n agos â meysydd i'w datblygu yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae arweinwyr yr ysgol a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn effeithlon ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwella. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, er enghraifft trwy gyflogi cynorthwyydd cyswllt teuluoedd i weithio gyda theuluoedd a disgyblion agored i niwed. Mae hyn yn fuddiol o ran cynyddu cysylltiad rhieni a gwella presenoldeb disgyblion targedig.

Yng ngoleuni'r cynnydd cadarn iawn a wneir gan bron pob un o'r disgyblion o bwyntiau cychwyn isel, ystod eithriadol y profiadau dysgu a'r arweinyddiaeth effeithiol iawn, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622111 - Ysgol Glan Gele**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 303 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 35.2 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 54 | 71 | 78 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 92.6 | 94.4 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 71 | 78 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 94.4 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.6 | 45.1 | 48.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 71 | 78 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.1 | 95.8 | 93.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.7 | 47.9 | 44.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 71 | 78 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.1 | 97.2 | 98.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 56.3 | 57.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae carfannau bach iawn mewn nifer o'r blynyddoedd y mae data perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gael ar gyfer yr ysgol hon. Os felly, nid ydym yn cynnwys tabl o ddata perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Cafwyd llai na 10 ateb. Ni ddangosir data.

### Ymateb i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 64 | 55 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 86% | 12% | 2% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 64 | 58 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 64 | 53 | 10 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 16% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 64 | 55 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 86% | 12% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 62 | 41 | 21 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 63 | 56 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 63 | 56 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 62 | 48 | 13 | 1 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 64 | 56 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 62 | 53 | 9 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at school. | 64 | 58 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 60 | 52 | 7 | 0 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 87% | 12% | 0% | 2% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 64 | 52 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 81% | 17% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 64 | 54 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 84% | 14% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school’s procedure for dealing with complaints. | 59 | 45 | 13 | 1 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 76% | 22% | 2% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 64 | 51 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 80% | 19% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 60 | 50 | 9 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 83% | 15% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 64 | 55 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 86% | 11% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 63 | 54 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 86% | 13% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Susan Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Eifion Lloyd Watkins | Arolygydd Tîm |
| Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Michael Fryer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sarah Hurst | Arolygydd Cymheiriaid |
| Julia Buckley Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.